Adroddiad ar

YMCA Abertawe

YMCA Abertawe
1 Ffordd y Brenin
Abertawe
SA1 5JQ

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Cyd-destun y ddarpariaeth

Mae YMCA Abertawe yn elusen annibynnol a fu'n weithgar yn yr ardal er 1857. Er 1913, mae wedi'i lleoli yn ei chyfleuster cymunedol pwrpasol yn Abertawe.

Mae YMCA Abertawe yn cynnig darpariaeth gwaith ieuenctid a chymunedol i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 25 oed.

Mae'n rhan o Ffederasiwn Byd-eang sy'n cynnwys darpariaeth YMCA ledled y byd ac, yn benodol, mae'n rhan o Strategaeth YMCA Genedlaethol ar draws Cymru a Lloegr.

Fodd bynnag, mae'n elusen annibynnol ac yn gyfrifol am ei gwaith codi arian, ei chyfeiriad a'i rheolaeth ei hun. Mae'n cael cyllid o ffynonellau cyhoeddus a ffynonellau eraill, gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru 'r Grant Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol Strategol, Cyngor Abertawe trwy amrywiaeth o ffrydiau ariannu, Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg: Cronfeydd Integreiddio Rhanbarthol, GIG Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Plant Mewn Angen, y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Waterloo ac Ymddiriedolaeth Benefact.

Mae canran sylweddol o incwm y sefydliad wedi'i seilio ar gyflawni canlyniadau ar gyfer prosiectau amrywiol.

Caiff gwaith YMCA Abertawe ei gefnogi gan fwrdd ymddiriedolwyr. Mae'r uwch dîm rheoli'n cynnwys prif swyddog gweithredol, rheolwr ieuenctid a chymunedol a rheolwr cyllid/adnoddau dynol sy'n rheoli tîm o gydlynwyr, gweithwyr ieuenctid a staff gweinyddol.

Adeg yr arolygiad, roedd 23 aelod staff (16.5 cyfwerth ag amser llawn). Mae YMCA Abertawe yn cefnogi gweithwyr ieuenctid cyflogedig â'r gallu i fanteisio ar hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn, gan gynnwys Tystysgrif Lefel 3 Agored Cymru mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid. Mae YMCA Abertawe hefyd yn ganolfan gymeradwy Agored Cymru, sy'n ei galluogi i hyfforddi a datblygu ei staff ei hun, yn ogystal â chynnig cyrsiau achrededig i sefydliadau eraill mewn meysydd y mae ganddynt arbenigedd ynddynt, fel LHDTC+.

## Trosolwg

Mae ethos a gweithredoedd YMCA Abertawe yn enghraifft dda o weledigaeth YMCA y dylai 'pawb gael cyfle teg i ddarganfod pwy ydynt a beth y gallant fod'.

Mae arweinwyr ac ymddiriedolwyr yn defnyddio ffrydiau cyllid amrywiol yn effeithiol i ddarparu arlwy gwaith ieuenctid clir a ffocysedig. Mae hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn gryf. Mae arweinwyr yn nodi eu blaenoriaethau allweddol yn dda ac yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau cynaliadwyedd eu gwasanaeth.

Mae arweinwyr yn cydnabod eu bod yn rhagori mewn rhai meysydd arbenigol gyda'u darpariaeth gwaith ieuenctid ac maent wedi adeiladu ar y cryfderau hyn i ddatblygu enw da dibynadwy yn ardal Abertawe gydag asiantaethau eraill, yr heddlu ac awdurdodau lleol.

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Abertawe, a gomisiynwyd gan Gyngor Abertawe ac wedi'i gefnogi gan Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg ac eraill, yn mynd i'r afael ag anghenion ymarferol ac emosiynol gofalwyr ifanc rhwng 8 a 18 oed yn effeithiol.

Mae Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid LHDTC+ yn cynnig man diogel a chefnogol i bobl ifanc LHDTC+ rhwng 11 a 25 oed.

Mae gwasanaeth Y-Hub yn canolbwyntio ar waith cymunedol, allgymorth a gwaith ar y stryd i ddiogelu'r bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl. Mae'n cynnig sesiynau galw heibio bum niwrnod yr wythnos, yn ogystal â chlwb ieuenctid mynediad agored ar nosweithiau Gwener.

Cafodd Y-Talent neu'r Gwasanaeth Cerddoriaeth a Chelfyddydau ei ymgorffori yng ngwasanaeth Y-Hub yn ddiweddar ac mae'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc ddatblygu medrau, magu hyder ac ennill achrediad, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae gweithwyr ieuenctid yn y cyd-destunau hyn yn meithrin perthnasoedd cryf ac anogol iawn â phobl ifanc, gan roi anghenion pobl ifanc yn gyntaf. Maent yn frwdfrydig ac yn angerddol o ran eu hymrwymiad i helpu pobl ifanc i ddatblygu eu hyder, eu hunan-barch a dilyn eu nodau, beth bynnag fo'u hamgylchiadau.

Mae YMCA Abertawe yn cynnig cymorth ac arweiniad gwerthfawr i rai o'r bobl ifanc fwyaf bregus yn yr ardal.

Mae pobl ifanc yn gwella eu rhinweddau a'u rhagolygon addysgol. Maent yn dysgu i gydweithio'n adeiladol â phobl eraill ac yn dysgu bod yn gynhwysol ac yn barchus wrth ryngweithio â phobl eraill. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sy'n cynorthwyo ac sydd o fudd i'w twf personol. Cânt eu grymuso i fynegi eu syniadau a dod yn fwy ymwybodol yn gymdeithasol ac yn wleidyddol ac, o ganlyniad, maent yn dod yn rym cadarnhaol dros newid.

O ganlyniad, mae llawer o bobl ifanc sy'n manteisio ar y ddarpariaeth, o bob rhan o Abertawe ac awdurdodau lleol cyfagos, yn ennill y wybodaeth, y gwydnwch a'r hyder sy'n eu cynorthwyo i drawsnewid eu bywydau a chyflawni eu potensial unigol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1. Datblygu arlwy rhagweithiol i hybu a hwyluso gwasanaethau i bobl ifanc y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?

Mae pobl ifanc yn gadarn wrth wraidd y gweithgareddau a ddarperir gan YMCA Abertawe. Ethos cyffredinol y gwasanaeth yw cefnogi a herio pobl ifanc i dyfu a chyflawni eu llawn botensial, beth bynnag fo'u hamgylchiadau. Gan yr ymgynghorir yn wirioneddol â nhw, a'u bod yn aml yn cyd-lunio'r gwasanaethau y maent yn eu cael, mae pobl ifanc yn sbarduno newidiadau i ddarpariaeth yn effeithiol. Mae hyn yn gwella eu hyder a'u twf personol eu hunain ac yn llunio gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc eraill. Mae pobl ifanc hefyd yn aeddfedu trwy ddylanwadu ar hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n darparu ac yn rheoli gwasanaethau i bobl ifanc, a'i ddylunio.

## Addysgol

Mae pobl ifanc mewn ysgolion ledled Abertawe yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion, fel y rhai y mae pobl ifanc LHDTC+ a gofalwyr ifanc yn eu hwynebu, trwy sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCh) a chlybiau amser cinio dan arweiniad gweithwyr ieuenctid. Yn y clybiau a'r sesiynau un-wrth-un hyn, maent yn gwella eu lles, yn dod i ddeall eu hunaniaethau eu hunain ac yn dysgu i ymdopi â sefyllfaoedd heriol.

Trwy ymweld â'r Senedd a chyfarfod â swyddogion yr awdurdod lleol, mae pobl ifanc sy'n mynychu'r prosiect gofalwyr ifanc yn dysgu am strwythurau gwleidyddol a gweinyddol. Maent yn deall sut mae polisi'n cael ei lunio sy'n arwain at wasanaethau sy'n effeithio arnynt. Maent yn gwella eu medrau cyfathrebu ac yn gwneud penderfyniadau am y blaenoriaethau ar gyfer gofalwyr ifanc.

Mae pobl ifanc mewn sesiynau mynediad agored yn dysgu i fod yn oddefgar o anghenion pobl eraill, yn rhannu syniadau ac yn ennill medrau mewn cynllunio digwyddiadau. Er enghraifft, maent yn dysgu medrau cyllidebu a chost cludiant ac adnoddau eraill.

Mae ychydig o bobl ifanc yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn hyfforddiant i uwch aelodau sy'n arwain at achredu. Er nad yw ennill cymwysterau'n ffocws cychwynnol i lawer o bobl ifanc sy'n mynychu'r ddarpariaeth, trwy eu rhyngweithiadau â gweithwyr ieuenctid, maent yn ennill yr arfau i elwa ar gyrsiau, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Er enghraifft, mae ychydig ohonynt wedi ennill cymwysterau hylendid bwyd a cherddoriaeth ac wedi magu'r hyder i fanteisio ar hyfforddiant sy'n berthnasol i'w sefyllfaoedd personol, fel hyfforddiant ymwybyddiaeth o epilepsi a chymorth cyntaf.

Ar y cyfan, mae llawer o bobl ifanc yn datblygu'r medrau a'r agweddau i wneud cynnydd yn eu dysgu ffurfiol neu anffurfiol ac i dyfu fel unigolion.

## Mynegiannol

Mewn sesiynau cerddoriaeth, mae pobl ifanc yn magu eu hyder a'u gallu i gyfathrebu â phobl eraill, gan ennill medrau cerddorol gwerthfawr. Maent yn datblygu eu hunan-barch a'u hyder ac yn mynegi eu teimladau trwy ryngweithio â'r gweithiwr ieuenctid. Mae pobl ifanc yn mynegi eu hunain trwy chwarae offerynnau, ysgrifennu, recordio a pherfformio cerddoriaeth mewn sesiynau grŵp ar draws Abertawe mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru mewn lleoliadau fel Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.

Mae pobl ifanc LHDTC+ yn mynegi eu hunain trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau *Pride*, gwneud eu logos eu hunain ar gyfer crysau T neu brosiectau artistig eraill. Mae pobl ifanc sy'n rhan o'r prosiect celfyddydau perfformio *Hot Chicks* yn dysgu crefft llwyfan ac yn dod yn fwy ymwybodol o gamfanteisio ar bobl ifanc. O ganlyniad, maent yn galluogi llawer mwy o bobl ifanc ac oedolion i ddeall ac uniaethu â'r materion hyn.

Ar y cyfan, mae pobl ifanc sy'n profi iechyd meddwl isel neu orbryder yn dysgu i fynegi eu teimladau a'u hofnau yn y mannau diogel a thrwy'r prosiectau diddorol y maent yn cymryd rhan ynddynt.

### Ciplun: Mynd i'r afael â chamfanteisio trwy'r celfyddydau perfformio

Mae Y-Hub YMCA wedi cydweithio â chwmni theatr proffesiynol ac artist i gyflwyno prosiect ar gamfanteisio. Bu'r cwmni theatr yn cyflwyno drama o'r enw 'Hot Chicks', sef stori sydd wedi'i lleoli yn Abertawe wedi'i seilio ar gamfanteisio ar bobl ifanc. Gweithiodd y cwmni â grŵp ffocws o bobl ifanc o Y-Hub, a arweiniodd at newidiadau i'r sgript a'r gerddoriaeth.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, bu YMCA Abertawe, y cwmni theatr ac artist yn gweithio â phobl ifanc ar gamfanteisio. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau creadigol, fel addurno mygydau, lle gallai pobl ifanc fynegi sut maent yn teimlo trwy gyfrwng celf. Caiff gweithdai cam-fanteisio eu cynnal ochr yn ochr â'r celfyddydau, ac mae pobl ifanc yn cyfrannu at bob agwedd ar y prosiect. Mae'r prosiect ar agor i unrhyw unigolyn ifanc sy'n mynychu Y-Hub.

## Cyfranogol

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau. Mae'r rhai o grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, fel pobl ifanc LHDTC+ a gofalwyr ifanc, yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cynyddu eu dealltwriaeth ohonyn nhw'u hunain ac o bobl ifanc eraill. Mae pobl ifanc yn y fforwm LHDTC+ a Gofalwyr Ifanc yn datblygu eu medrau arweinyddiaeth ac yn mynegi eu syniadau'n dda. Maent yn cynnal cyfweliadau ar gyfer aelodaeth o'u fforymau ac yn gwerthuso'n glir ac yn deg pam y maent wedi dewis aelodau newydd. Mae pobl ifanc LHDTC+ hefyd yn ymgysylltu'n adeiladol â'r heddlu i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb.

## Cynhwysol

Mae pobl ifanc yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn barchus tuag at bobl eraill. Maent yn deall anghenion ei gilydd ac yn derbyn eu gwahaniaethau. Maent yn gwrtais ac yn ddeallgar wrth drafod pynciau a gweithgareddau ac yn ofalus i beidio â phechu yn erbyn unrhyw un. Maent yn ennill gwybodaeth dda iawn am ymwybyddiaeth o rywedd, anghenion pobl ifanc eraill ac yn gyfforddus o ran trafod materion anodd fel sefyllfaoedd a deinameg teuluoedd.

Daw llawer o bobl ifanc i ddeall a pharchu diwylliannau a thraddodiadau eraill a sut maent yn uniaethu â'r cymunedau yn yr ardal leol. Mae ychydig ohonynt hefyd yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau yn yr ysgol. Mae pobl ifanc yn rhannu eu gwybodaeth a'u hagweddau ag aelodau o'u teulu a'u ffrindiau yn ystod digwyddiadau rhyng-genhedlaeth. Mae hyn yn galluogi brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu i ddeall mwy am y materion y mae'r bobl ifanc yn eu harchwilio a'r hyn y maent yn ei gyflawni.

## Grymusol

Mae pobl ifanc yn magu hyder trwy gymryd rhan mewn prosiectau ieuenctid. Maent yn dod yn hyderus yn eu rolau a'u hunaniaethau eu hunain ac yn ymgymryd â thasgau ymarferol. Er enghraifft, maent yn magu'r hunanddibyniaeth i ddefnyddio cludiant cyhoeddus i fynychu darpariaeth yn Abertawe. Mae llawer o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu grymuso o ddifrif ac, yn eu tro, maent yn grymuso pobl eraill. Mae pobl ifanc wedi dylanwadu ar benderfyniadau, strwythurau a pholisïau gwleidyddol a gweinyddol sydd wrth wraidd y gwasanaethau maent yn eu derbyn. Er enghraifft, trwy gyfrannu at ddatblygu meini prawf asesu i nodi anghenion gofalwyr ifanc a thrwy ddatblygu pecynnau hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a'r heddlu, mae pobl ifanc yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r materion y maen nhw a phobl eraill mewn cymdeithas yn eu hwynebu.

## Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl o ddarpariaeth gwaith ieuenctid

Mae gweithwyr ieuenctid yn meithrin perthnasoedd cryf ac anogol iawn â phobl ifanc, sy'n sail i ethos y sefydliad o roi eu hanghenion yn gyntaf mewn ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ifanc. Maent yn eiriolwyr angerddol dros bobl ifanc ac yn ymrwymo i'w cynorthwyo i ddatblygu a gwireddu gweledigaeth YMCA, sef '*dylai pawb gael cyfle teg i ddarganfod pwy ydynt a beth y gallant fod'.*

Mae gweithwyr ieuenctid yn asesu anghenion unigolion yn dda ac maent yn ddyheadol ar gyfer y bobl ifanc y maent yn gweithio â nhw. Maent yn gwerthuso eu cynnydd yn effeithiol, er enghraifft mewn sesiynau myfyriol wythnosol ar gyfer y gweithwyr ieuenctid. Mae gweithwyr ieuenctid yn cydweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau datblygiad personol pobl ifanc trwy'r darpariaethau gwahanol sy'n cael eu cynnig. O ganlyniad, maent yn magu hyder ac yn dod yn aelodau mwyfwy gweithgar o'u grwpiau a chymdeithas yn gyffredinol.

Mae sesiynau gwaith ieuenctid wedi'u cynllunio'n dda a chaiff adnoddau eu defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi'r rhyngweithiadau â phobl ifanc, er enghraifft mewn sesiynau cerddoriaeth a choginio.

Mae gweithwyr ieuenctid yn defnyddio technoleg yn briodol trwy gynnal sesiynau ar-lein ar gyfer gofalwyr ifanc sy'n methu mynychu darpariaeth wyneb-yn-wyneb oherwydd eu cyfrifoldebau, er enghraifft mewn sesiynau pobi ar-lein lle caiff cyflenwadau eu cludo i'r drws cyn y sesiwn. Heb ddarpariaeth debyg, ni fyddai'r bobl ifanc hyn yn gallu elwa cymaint o'r cymorth a chefnogaeth werthfawr sy'n cael eu cynnig iddynt.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion i gynnal sesiynau mewn ysgolion, gan gynnwys gwersi ABaCh. Mae'r gwersi hyn ar gael yn Gymraeg hefyd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae *Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Abertawe*, a gomisiynwyd gan Gyngor Abertawe, yn mynd i'r afael ag anghenion ymarferol ac emosiynol gofalwyr ifanc rhwng 8 a 18 oed yn effeithiol. Mae staff yn trefnu cludiant i weithgareddau, yn darparu seibiannau ac yn tywys gofalwyr ifanc i eirioli drostynt eu hunain. Caiff aelodau'r fforwm gofalwyr ifanc eu hannog yn fedrus i ysgwyddo cyfrifoldebau a llunio'r ddarpariaeth trwy gynrychioli'r fforwm mewn digwyddiadau cenedlaethol i ofalwyr ifanc.

Trwy'r fenter Cerdyn Gofalwyr Ifanc, sydd bellach yn cael ei rheoli'n gyfan gwbl gan YMCA Abertawe, mae pobl ifanc yn cael cydnabyddiaeth a chymorth mewn ysgolion, fferyllfeydd a meddygfeydd meddygon teulu, gan eu helpu i reoli eu cyfrifoldebau'n fwy effeithiol. Mae pobl ifanc yn esbonio'n huawdl sut mae'r cerdyn yn eu helpu i gydbwyso eu cyfrifoldebau gofalu â bywyd ysgol, gan leihau straen ac atgyfnerthu eu hawl i gydnabyddiaeth a chymorth hyblyg.

### Ciplun: Cynllun Cerdyn Gofalwyr Ifanc

Mae'r Cynllun Cerdyn Gofalwyr Ifanc, sy'n cael ei gynnal gan YMCA Abertawe, yn darparu cerdyn adnabod i ofalwyr ifanc (dan 18 oed) yn Abertawe, sy'n cydnabod eu rôl ofalu yn ddi-ffwdan. Ar ôl cael ei lansio'n genedlaethol gan Lywodraeth Cymru i ddechrau, cymerodd YMCA Abertawe y cam cyntaf i gadw'r cynllun yn lleol. Trwy gydweithio'n agos â Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Morgannwg, maent yn sicrhau bod logos yn weladwy mewn meddygfeydd a fferyllfeydd, er mwyn i ofalwyr ifanc allu casglu presgripsiynau ar gyfer aelodau'r teulu. Mae staff hefyd yn cysylltu'n rhagweithiol ag ysgolion i gydnabod y cerdyn. Trwy gyflwyno'r cerdyn, gall pobl ifanc sicrhau bod ysgolion, gwasanaethau iechyd a'r gymuned yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ychwanegol, sy'n yn aml yn eu helpu i fanteisio ar ddealltwriaeth, hyblygrwydd a chymorth. Yn ogystal, mae Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn cynnig mynediad am ddim i gemau cartref i ddeiliaid cardiau, gan gynnig cyfleoedd i'r bobl ifanc hyn na fyddent yn eu cael, fel arfer. Mae YMCA Abertawe yn rheoli ceisiadau, yn cyhoeddi'r cardiau ac yn rhoi gofalwyr ifanc mewn cysylltiad â gwasanaethau ac adnoddau perthnasol i gefnogi eu lles a'u grymuso yn eu rôl ofalu.

Mae'r *Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid LHDTC+* wedi datblygu dros gyfnod o glwb ieuenctid i wasanaeth llawn sy'n darparu man diogel a chefnogol i bobl ifanc LHDTC+ rhwng 11 a 25 oed. Mae'n bodloni anghenion amrywiol pobl ifanc yn llwyddiannus trwy ddarpariaeth fel clwb ieuenctid *GoodVibes*, sesiynau galw heibio, cymorth unigol a gwaith allgymorth. Mae gweithwyr ieuenctid yn y grŵp *GoodVibes* wedi cymryd camau rhagweithiol i helpu aelodau sydd â mudandod dethol trwy drefnu gweithdai Makaton a sesiynau iaith arwyddion. Mae aelodau staff yn defnyddio Makaton ac iaith arwyddion i wneud yn siŵr fod y bobl ifanc hyn yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi ac i'w helpu i ddod yn aelodau llawn o'r grŵp.

Mae'r gwasanaeth yn grymuso pobl ifanc yn llwyddiannus i helpu i lunio darpariaeth ac agweddau'r dyfodol. Er enghraifft, cyfarfu pobl ifanc ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn y Senedd yn ddiweddar i lywio cynllun gweithredu LHDTC+ newydd Llywodraeth Cymru.

Esblygodd gwasanaeth *Y-Hub* oherwydd pryderon, ar ôl cyfnodau o ynysu yn ystod y pandemig, bod pobl ifanc mewn mwy o berygl o niwed a chamfanteisio. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar waith cymunedol, allgymorth a gwaith ar y stryd i ddiogelu'r bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl. Mae'n cynnig sesiwn gallu heibio bum niwrnod yr wythnos, yn ogystal â chlwb ieuenctid mynediad agored ar nosweithiau Gwener. Mae'n gweithredu'n effeithlon fel siop-un-stop y gall pob unigolyn ifanc fanteisio arni.

Yn ddiweddar iawn, daeth cyllid grant *Y-Talent* neu'r *Gwasanaeth Cerdd a Chelfyddydau* i ben, a chafodd ei ymgorffori yn y gwasanaeth Y-Hub. Trwy ddefnyddio nifer o ffrydiau ariannu'r celfyddydau yn greadigol, dros y blynyddoedd, mae'r gwasanaeth wedi cynnig cyfle i bobl ifanc ddatblygu medrau, hyder ac ennill achrediad, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

### Ciplun: Gwasanaeth Cerddoriaeth a Chelfyddydau Y-Talent

Dros nifer o flynyddoedd, mae prosiect Y-Talent YMCA Abertawe wedi cynnig gweithdai am ddim mewn ysgrifennu geiriau i ganeuon, cyfansoddi a chynhyrchu cerddoriaeth ddigidol. Mae gweithwyr ieuenctid arbenigol yn buddsoddi amser sylweddol mewn helpu pobl ifanc i fagu hyder cyn iddynt ddechrau creu cerddoriaeth hyd yn oed, sy'n arbennig o drawsnewidiol i'r rhai sydd wedi wynebu rhwystrau neu bryder sylweddol. Gall effaith yr amgylchedd anogol hwn newid bywydau. Er enghraifft, sicrhaodd staff gyfle i bobl ifanc ymweld â stiwdio eiconig Rockfield Studios, lle mae bandiau enwog wedi cynhyrchu albymau a gyrhaeddodd frig y siartiau, a recordio cerddoriaeth. Mae rhai cyfranogwyr hefyd wedi perfformio ar y llwyfan cyhoeddus yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd ac yn theatr YMCA. Trwy'r profiadau cofiadwy hyn, mae pobl ifanc yn dysgu medrau technegol a chreadigol ac yn datblygu gwydnwch, hunan-barch ac uchelgeisiau cliriach ar gyfer y dyfodol.

Ar y cyfan, mae YMCA Abertawe yn cynnig cymorth ac arweiniad gwerthfawr i rai o'r bobl ifanc fwyaf bregus yn yr ardal. Mae gweithwyr ieuenctid yn rhannu eu harbenigedd yn y meysydd hyn yn fuddiol â sefydliadau ar draws sectorau eraill, gan gynnwys heddluoedd ac awdurdodau lleol. Er enghraifft, maent yn cynnal sesiynau hyfforddiant effeithiol iawn ar ymwybyddiaeth o drawsrywedd, sy'n amlygu sut i ddefnyddio iaith yn briodol ac yn gwella dealltwriaeth cynrychiolwyr o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cydweithio'n dda â phobl sydd wedi cael profiad o gam-drin rhwng cyfoedion neu sydd wedi cael profiad o droseddau casineb, i'w hannog i gyfrannu'n werthfawr at ddatblygu mentrau gwrth-hiliol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn hybu ffyrdd iach o fyw yn effeithiol ac yn ymdrin â materion fel camddefnyddio sylweddau a diogelwch ar-lein â phobl ifanc sy'n mewn perygl o gael eu camfanteisio.

O ganlyniad, mae llawer o bobl ifanc o bob rhan o Abertawe ac awdurdodau lleol cyfagos yn ennill y wybodaeth, y gwydnwch a'r hyder sy'n eu cynorthwyo i drawsnewid eu bywydau a chyflawni eu potensial unigol.

## Arwain a gwella

Mae arweinwyr yn arddel hanes cyfoethog YMCA yn Abertawe, gan gynnal y moesau a'r gwerthoedd y cafodd ei sefydlu ohonynt gyntaf. Mae ymdeimlad cryf o weledigaeth strategol sy'n cael ei chyflwyno'n ddiwyd gan staff ac sy'n cael ei rhannu a'i harwain yn fedrus gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r ymddiriedolwyr. Mae'r ymdeimlad clir hwn o arweinyddiaeth strategol yn nodi ac yn cefnogi'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid sydd ei hangen ac sy'n cael ei chynnig i bobl ifanc. Mae'r rheolwr gwaith ieuenctid yn allweddol o ran gwthio gweledigaeth y sefydliad ymlaen yn effeithiol gydag ymroddiad ac angerdd.

Mae pobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i lunio'r gwasanaeth, o gynllunio darpariaeth a gweithgareddau i gyfarfod ag ymddiriedolwyr a helpu i lywio cyfeiriad strategol YMCA. Mae pobl ifanc hefyd yn cael cyfleoedd ystyrlon i leisio eu barn y tu allan i'w hardal leol, gan gynnwys siarad ag Ysgrifennydd y Cabinet yn y Senedd i gyfrannu at y cynllun gweithredu LHDTC+, gan gynnwys bod yn rhan o brosiect ymchwil â Phrifysgol Bryste. Roedd y prosiect ymchwil yn cynnwys pobl ifanc yn cymryd rhan mewn fforwm ieuenctid trawsryweddol ac anneuaidd, a fydd yn adrodd i lywodraeth y DU ar sut caiff pobl ifanc eu cynrychioli yn Neddfau'r DU, yn benodol o fewn cyfraith teulu.

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol, yr ymddiriedolwyr a'r rheolwr gwaith ieuenctid yn defnyddio ffrydiau cyllid yn briodol i gyflwyno arlwy gwaith ieuenctid clir a ffocysedig. Mae arweinwyr yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau cynaliadwyedd eu gwasanaeth trwy nodi eu blaenoriaethau allweddol. Cydnabu arweinwyr yn ddilys eu bod yn rhagori mewn rhai meysydd arbenigol wrth gyflwyno gwaith ieuenctid ac aethant i adeiladu ar y cryfderau hyn.

Mae darpariaeth briodol i gefnogi datblygiad pobl ifanc yn y Gymraeg, gan gynnwys cymorth ABaCh mewn gwersi a ddarperir yn Gymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i ddatblygu arlwy rhagweithiol ymhellach i bobl ifanc y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt.

Mae YMCA Abertawe wedi'i sefydlu'n bartner allweddol ag ystod o sefydliadau ac mae'n cydweithio'n effeithiol â nhw i leihau dyblygu a manteisio i'r eithaf ar arlwy'r gwasanaeth i bobl ifanc. Mae'r sefyllfa hon â phartneriaid wedi deillio o flynyddoedd o adeiladu ei enw da, sydd wedi arwain at YMCA Abertawe yn dod yn sefydliad dibynadwy. Mae'r cysylltiadau cryf a ffurfiwyd â phartneriaid yn gydweithredol dros ben, er enghraifft y cydweithio ag Evolve i fapio cyfleoedd gwaith ieuenctid i bobl ifanc ar draws Abertawe trwy Rwydwaith Darparwyr Gwaith Ieuenctid Abertawe. Mae'r gwaith hwn yn ymdrechu i sicrhau y gall pobl ifanc fanteisio ar wasanaethau, beth bynnag fo'u hamgylchiadau neu anghenion.

Mae gwerthuso a chynllunio yn gryfder, ar lefel strategol a gweithredol. Caiff prosiectau eu gwerthuso'n gadarn a chaiff adborth rheolaidd ei gasglu gan bobl ifanc yn rhan o'r broses hon. Mae cysylltiad clir rhwng adroddiadau gwerthuso prosiectau a chynllunio gwelliant. Mae YMCA Abertawe wedi datblygu system gwybodaeth reoli gynhwysfawr sy'n ei helpu i gasglu a choladu data ystyrlon sy'n llywio ei werthusiadau a'i gynllunio gwelliant ar gyfer y dyfodol yn dda.

### Ciplun: Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Mae staff yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu a gwerthuso data i lywio arfer. Yn ganolog i hyn y mae'r defnydd o'u system gwybodaeth reoli. Trwy hyn, mae arweinwyr yn casglu a choladu gwybodaeth allweddol sy'n amrywio o wybodaeth am bobl ifanc, manylion a myfyrdodau ar bob sesiwn ddarpariaeth, pellter a deithiwyd ac adborth gan bobl ifanc trwy arolygon. Mae'r data o'r system yn galluogi arweinwyr i lunio adroddiadau gwerthuso effeithiol. Mae'r gallu i olrhain a monitro pobl ifanc unigol trwy'r gwasanaeth yn sicrhau y gall staff addasu cymorth neu ddarpariaeth unigol i weddu orau i anghenion pobl ifanc.

Mae gan YMCA Abertawe broses ymsefydlu drylwyr ar gyfer staff, gan gynnwys ar gyfer meysydd allweddol fel diogelu. Gall staff gymryd rhan mewn ystod dda o gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr. Mae YMCA Abertawe yn gwneud defnydd da o fod yn ganolfan gymeradwy Agored Cymru, sy'n ei alluogi i hyfforddi a datblygu ei staff ei hun. Mae hefyd yn cynnig hyfforddiant i sefydliadau eraill mewn meysydd allweddol fel LHDTC+ a Gofalwyr Ifanc, gan gyfrannu at ddatblygu'r gweithlu ehangach yn Abertawe a thu hwnt.

Mae prosesau goruchwylio priodol ar waith i gefnogi staff â rheoli perfformiad, nodi anghenion hyfforddiant a chefnogi eu lles. Mae staff yn cymryd rhan yn gyson mewn sesiynau ymarferol myfyriol mewn grŵp. Caiff y sesiynau hyn eu defnyddio i rannu arfer dda, cefnogi lles, cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol ac maent yn canolbwyntio ar atebion ar gyfer pobl ifanc unigol. Mae'r sesiynau hyn yn rhan o brosesau gwerthuso cyffredinol y gwasanaeth ac mae'r deilliannau dysgu wedi arwain at newidiadau cadarnhaol, er enghraifft wrth ddatblygu cod ymddygiad newydd ar gyfer pobl ifanc i ymdrin ag ymddygiad heriol.

Mae diwylliant diogelu cryf. Mae staff yn defnyddio meddalwedd diogelu yn dda i gofnodi a monitro materion ac maent yn glir ynghylch gweithdrefnau diogelu, fel pryd i godi ac adrodd ar bryderon. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn cynnig amgylchedd effeithiol lle mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn hamddenol.

Mae YMCA Abertawe wedi chwarae rhan ganolog mewn prosiect diogelu cyd-destunol amlasiantaeth *(Contextual, Missing, Exploited and Trafficked – CMET)*. O fewn y grŵp hwn, caiff YMCA Abertawe ei gydnabod am ei arbenigedd mewn gweithio â phobl ifanc sydd â nodweddion gwarchodedig ac mae wedi hyfforddi partneriaid, gan gynnwys yr heddlu, ar faterion LHDTC+, sydd wedi dylanwadu ar ymagwedd CMET tuag at y materion hyn.

Ar y cyfan, oherwydd eglurder gweledigaeth yr arweinwyr, prosesau gwerthuso cadarn a phwyslais cryf ar leisiau pobl ifanc, mae YMCA Abertawe yn sefydliad hynod gydweithredol, myfyriol a blaengar. Trwy ddysgu proffesiynol wedi'i dargedu'n dda, defnydd rhagweithiol o ddata a diwylliant diogelu sydd wedi'i ymwreiddio, mae'r gwasanaeth yn parhau i esblygu a gwella i fodloni anghenion amrywiol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi'r canlyniadau o'r holiaduron i bobl ifanc, ac yn ystyried barn pobl ifanc, staff, a phartneriaid, lle bo'n briodol, trwy'r ymatebion i'r holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â'r prif swyddog ieuenctid / y prif weithredwr, y bwrdd ymddiriedolwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol, staff gwaith ieuenctid unigol, a gwirfoddolwyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â phobl ifanc i drafod eu darpariaeth, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau gwaith ieuenctid, gan gynnwys clybiau ieuenctid, gwaith datgysylltiedig ar y stryd a gweithgareddau yn yr ysgol ar draws y ddarpariaeth, lle bo'n briodol
- yn arsylwi pobl ifanc, ac yn siarad â nhw yn ystod sesiynau darpariaeth
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn craffu ar ystod eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gyfranogiad a deilliannau dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu pobl ifanc, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o bobl ifanc…'* neu *'ychydig iawn o bobl ifanc…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru).

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/06/2025